

07.10.2021

Cathryn Ings  
Cyswllt Contact  
Ffôn Phone  
03305 880450

---

**Erthygl i'r Wasg Press Release**

---

## Eryri - nid tirwedd hardd yn unig ond lle i fyw a bod

"Parc Cenedlaethol Eryri - yr hynaf o'n holl barciau cenedlaethol a lle sy'n glytwaith o ardaloedd a thirweddau - pob un hefo'i hanes ei hun. Yn 70 oed eleni, mae'r Parc yn llawn golygfeydd trawiadol sy'n serennu fel miloedd o ddelweddau cardiau post ..."

Dyna eiriau'r awdur Manon Steffan Ros sydd wedi sgrifftio a throslisio cyfres newydd ar S4C sef **Eryri: Pobol y Parc**.

Mae hi'n mynd ymlaen i ddweud fod y parc yn fwy na dim ond tirwedd hardd a chyfleoedd i dynnu lluniau - mae hefyd yn cynnig cartref a chymuned i'w thrigolion yn ogystal â rhywle iddyn nhw weithio ac i ymlacio.

A dyna beth sydd wrth galon y gyfres hon - y bobl - pob un â'i hanes a phob un yn rhan o gymuned Eryri.

Mae pobl wedi bod yn ffermio'r tir yn ardal Eryri ymhell cyn i'r parc cenedlaethol gael ei sefydlu - ac mae sawl traddodiad hynafol ynghlwm gydag amaethyddiaeth, gan gynnwys hel merlod gwylt y Carneddau.

Clywn hefyd gan y ffermwyr Huw Evans - mae ei deulu wedi bod yn ffermio yr ardal Rhydymain ers pedair cenhedlaeth.

"Mae'n bwysig wrth reswm bod yna bobl yn byw yn yr ardaloedd yma a'u bod nhw gallu gwneud eu bywoliaeth yn yr ardal yma."

Ond nid amaethyddiaeth yn unig sy'n cynnig bywoliaeth. Mae'r parc cenedlaethol yn cynnig pob math o swyddi fel wardeniaid, swyddogion gydag arbenigedd mewn coed a choedlannau, hanes a threftadaeth ddiwylliannol a hyd yn oed swyddog awyr dywyll - yr un cyntaf ym Mhrydain.

Ond gyda thai yn Eryri yn costio £215,000 ar gyfartaledd a chyflogau yn £26,000 ar gyfartaledd mae'n anodd i bobl leol ddod o hyd i rywle i fyw sy'n fforddiadwy. Dyma un o'r heriau mwyaf, ac un o brif flaenorriaethau Adran Gynllunio'r Parc.

Mae Catrin O'Neill yn gantores ac ymgyrchyd sydd wedi gorfol addasu i reolau cynllunio'r parc cenedlaethol er mwyn codi tŷ ar fferm ei modryb a'i hewythr oedrannus yn ardal Aberdyfi.

"Mae'n drist iawn rili achos dwi'n nabod lot o bobl sy'n teimlo bod y parc fel rhyw fath o elyn. Maen nhw'n neud pethau'n anodd i bobl leol. Da ni'n trio ennill cyflog, da ni'n trio byw fan hyn ac edrych ar ôl aelodau hen ein teuluoedd. Da ni angen lle i fyw."

Mae Catrin hefyd yn poeni am y niferoedd o dai gwyliau yn Aberdyfi lle mae 40 y cant o stoc tai yn dai gwyliau.

"Be da ni angen neud yw prynu'r tai yn ôl er mwyn rentio nhw allan. Does dim nunlla i rentio fan hyn - mae'r holl lefydd 'ma ar gyfer gwyliau, Airbnb's - mae'n anghredadwy rili."

Yn ystod y gyfres **Eryri: Pobol y Parc**, gwelwn fod yna bris uchel i'w dalu i fyw mewn ardal o harddwch naturiol ond mae Eryri hefyd yn cynnig cyfleoedd i drigolion y parc fwynhau tirwedd eu cynefin.

Pobl fel yr eirafyrddwr Gethin Roberts, y caiacwr dŵr gwyn Cara Rhiannon a'r beicwyr mynydd Emrys Davies a Meinir Siencyn.

Meddai Meinir: "Mae rhai pobl yn edrych ar hwn ac yn meddwl 'waw, da chi'n lwcus efo hwn ar eich stepen drws' a da ni yn gwerthfawrogi hwnna. Ond mae pobl eraill yn fatha 'peidiwch â dangos hwn i bobl achos da ni ddim ishio mwy o bobl i ddod yma'.

"Ar ddiwedd y dydd da ni yn byw yma a dyma (beicio mynydd) be da ni'n neud. Dyw e ddim fatha bod ni wedi dreifio milltiroedd. Da ni *literally* wedi reidio o'r drws i fama."

Dewch i ddysgu mwy am yr hen draddodiadau sy'n cynnal bywyd yn y parc yn ogystal â chynlluniau cyffrous ar gyfer y dyfodol yn **Eryri: Pobol y Parc** ar S4C ac S4C Clic.

**Eryri: Pobol y Parc**

**Nos Fawrth 19 Hydref 9.00, S4C**

**Isdeitlau Saesneg**

**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**

**Cynhyrchiad Cwmni Da ar gyfer S4C**

LLUNIAU: <https://www.dropbox.com/sh/j2v20q6r226l0ti/AAAgJxy1-65D0pK583OQFHIVa?dl=0>

1. Llifogydd yn ardal Y Bala
2. Naturiaethwr Rhys Gwynn yn gosod bocsys i'r bele'r coed yn Nyffryn Mawddach.
3. Rhydian Roberts, Swyddog Coed a Choedlannau
4. Golygfeydd o fynyddoedd Eryri
5. Keith Ellis, Warden Tymhorol
6. Golygfeydd o fynyddoedd Eryri
7. Dyn lleol di-enw.
8. Gethin Roberts, Eira-fyrrddwr
9. Cara Rhiannon, Caiacwr dŵr gwyn

07.10.2021

Cathryn Ings  
Cyswllt Contact  
Ffôn Phone  
03305 880450

---

**Erthygl i'r Wasg Press Release**

---

## Eryri – so much more than a beautiful landscape

"Snowdonia National Park – the oldest of all our national parks and a place that is a patchwork of areas and landscapes – each one with their own history. The park is 70 years old this year and the dramatic landscapes shine like a thousand postcard images..."

These are the words of the author Manon Steffan Ros who has scripted and voices a new series on S4C - **Eryri: Pobol y Parc** (Snowdonia: The People of the Park).

She goes on to say that the park is not only a beautiful landscape which offers endless photo opportunities – it also provides a home and community for its residents as well as somewhere for them to work and relax.

And that is what is at the heart of this series – the people – each one with their own story to tell and each one a member of Snowdonia's community.

People farmed the land in Snowdonia long before the national park was established – and there are several ancient traditions attached to agriculture in the area including gathering the Carneddau wild ponies.

We also hear from farmer Huw Evans whose family have farmed in the Rhydymain area for four generations. "Naturally it's important that people live in this area and that they can make a living here," said Huw.

However, agriculture isn't the only way to make a living. The national park offers all sorts of jobs including wardens, officers with specialities including trees and woodland management, history and heritage and even a dark skies officer – the first in Britain.

But with houses in Snowdonia costing £215,000 on average and the average salary £26,000, it can be difficult for local people to find an affordable place to live. This is one of the biggest challenges and one of the main priorities of the park's planning department.

Catrin O'Neill is a singer and campaigner who has had to adapt to the national park's planning rules in order to build a house on her elderly aunt and uncle's farm in the Aberdyfi area.

"It's very sad really, because I know a lot of people see the park as some sort of enemy. They make things difficult for local people. We are trying to earn a living, we are trying to live here and look after older members of our family. We need a place to live."

Catrin also worries about the number of holiday homes in Aberdyfi where 40 per cent of the housing stock is holiday homes.

"We need to buy the houses back in order to rent them out. There is nowhere to rent here – all these houses are for holidays, Airbnb's – it's unbelievable really."

During **Eryri: Pobol y Parc**, we see that there is a high price to pay to live in an area of natural beauty but Snowdonia also offers opportunities for residents to enjoy the landscape of the area in which they live.

People such as snowboarder Gethin Roberts, white water kayaker Cara Rhiannon and mountain bikers Emrys Davies and Meinir Siencyn.

Meinir said: "Some people look at this and say 'wow, you're so lucky to have this on your doorstep' and we appreciate that. But other people say 'don't show this to people because we don't want more people coming here'.

"At the end of the day we live here and this (mountain biking) is what we do here. We haven't driven miles to get here. We have literally ridden here from our front door."

Learn more about the old traditions which are part of everyday life in the park as well as exciting plans for the future in **Eryri: Pobol y Parc** on S4C and S4C Clic.

**Eryri: Pobol y Parc**

**Tuesday 19 October 9.00, S4C**

**English subtitles available**

**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**

**A Cwmni Da production for S4C**

PHOTOS: <https://www.dropbox.com/sh/j2v20q6r226l0ti/AAAqJxy1-65D0pK583OQFHIVa?dl=0>

1. Floods in the Bala area
2. Naturalist Rhys Gwynn setting up boxes for pine martens in Dyffryn Mawddach.
3. Rhidian Roberts, Tree and Woodlands Officer.
4. Views of Snowdonia
5. Keith Ellis, Seasonal Warden
6. Views of Snowdonia
7. Un-named local man.
8. Gethin Roberts, Snow-boarder
9. Cara Rhiannon, White water kayaker